**Atodiad A**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD AM WRTHWYNEBIAD**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**RHAGLEN FODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD YR HYSBYSIAD CYHOEDDUS YNGLŶN Â'R NEWID RHEOLEDIG ARFAETHEDIG I YSGOL GYNRADD MYNYDD CYNFFIG AR FFURF HELAETHIAD**

## 1. Pwrpas yr adroddiad

1.1 Rhydd yr adroddiad hwn fanylion y gwrthwynebiad a dderbyniwyd ynghylch y cynnig statudol i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar ffurf helaethiad (sef 2 ddosbarth mynediad ynghyd â meithrinfa gyda 75 lle).

## 2. Cefndir

2.1. Ym mis Hydref 2021, derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal proses ymgynghori statudol mewn perthynas â'r helaethiad arfaethedig ar Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. O dan y cynnig, byddai'r trefniant safle rhanedig presennol yn dod i ben a byddai adran y babanod yn symud i ysgol gynradd newydd ar safle iau presennol Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET o fis Medi 2025.

2.2. Bu'r cynnig yn destun proses ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 23 Tachwedd 2021 a 12 Ionawr 2022, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2018. Roedd yn rhoi cyfle i ymgyngoreion rhagnodedig yn ogystal ag aelodau o'r gymuned leol ddod i wybod am y cynnig. Roedd y ddogfen ymgynghori'n estyn gwahoddiad i gyflwyno sylwadau a barn ar y cynnig er mwyn i Gabinet y Cyngor gael clywed barn pawb oedd â diddordeb fel y gellid eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau.

2.3. Ym mis Chwefror 2022, mewn adroddiad ymgynghori, cyflwynwyd crynodeb i'r Cabinet o'r sylwadau a'r safbwyntiau a dderbyniwyd ynglŷn â'r cynnig a chafwyd cymeradwyaeth i gyhoeddi'r adroddiad. Roedd copi o'r adroddiad ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/media/12846/mynydd-cynffig-primary-school-consultation-report.pdf

2.4. Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd Cabinet y Cyngor symud ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus statudol. Wedi hynny, cyhoeddwyd hysbysiad statudol yn amlinellu'r cynigion ar 7 Mawrth 2022 am gyfnod o 28 diwrnod a gwahoddwyd gwrthwynebiadau

ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn, fel y rhagnodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

3. **Gwrthwynebiad i'r cynnig**

3.1 Derbyniodd y Cyngor un e-bost yn ystod y cyfnod rhybudd statudol. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol, ac argymhellwyd ystyried yr ohebiaeth fel gwrthwynebiad.

3.2 **Y gwrthwynebiad**

'Cyfeiriaf at ein sgwrs ffôn ar 31/01/2022 i'r cyngor gadarnhau'n ysgrifenedig y byddent yn symud tŷ gwydr, siediau a chytiau ieir neu'n gosod rhai newydd. Rwyf hefyd yn cyfeirio at y ffaith fod y rhandir mewn statud. Gan na chafwyd ymateb i hyn, gyda gofid y mae'n rhaid inni nawr roi pum diwrnod i chi ymateb. Os na fyddwch yn gwneud hynny, yna gorfodir ni i fynd â'r mater at awdurdod uwch, h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol, Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, ynghyd ag arweinwyr y prif bleidiau gwleidyddol. Byddai hyn yn golygu gwrthwynebu eich cynlluniau ar y lefel uchaf gan ohirio o bosibl ddatblygiad yr ysgol newydd.
Gyda gofid'

3.3 **Ymateb yr awdurdod lleol i'r gwrthwynebiad a wnaed**

Er mwyn symud ymlaen gyda'r cynnig, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori rhwng 23 Tachwedd 2021 a 12 Ionawr 2022 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2018. Cynhaliodd yr awdurdod lleol 4 cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig (safle babanod), a chynhaliwyd cyfarfodydd 'rhithwir' gyda dysgwyr, staff ysgol, llywodraethwyr, a Chyngor Cymuned y Pîl. Mynychodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) y sesiynau a gynhaliwyd yn yr ysgol. At hynny, cynhaliwyd sesiynau ar wahân gyda'r ddau sefydliad i fynd i'r afael â'u pryderon penodol. Bu'r aelodau lleol yn ymgysylltu'n frwd â'r broses ac yn ei chefnogi.

Daeth y tir oedd ym cael ei ddal gan Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath i feddiant y Cyngor i ddibenion Addysg. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai tenantiaeth safle'r rhandiroedd yn dod i ben, yn dilyn y cyfnod rhybudd perthnasol.

Mae tir arall addas wedi cael ei nodi i gymryd ei le, sydd wedi'i leoli gerllaw safle'r ysgol arfaethedig, a bydd yn darparu yr un faint o le a'r un nifer o leiniau rhandir (sef 26). Mae'r tîm dylunio wedi cadarnhau y gellir trefnu'r ddarpariaeth o fewn y safle newydd gyda'r nod o beidio â mynd y tu hwnt i unrhyw raddiannau a geir yn y leiniau presennol.

Mae telerau'r feddiannaeth i'w cytuno. Fodd bynnag, y bwriad, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, fyddai dynodi'r cyfleuster newydd yn safle rhandiroedd 'statudol'.

Mae swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi rhoi cynllun safle arfaethedig i Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath ar gyfer y rhandiroedd newydd ac wedi trafod maint lleiniau, lleoliad a phwyntiau mynediad.

Mae'r canlynol yn fanyleb ddrafft amlinellol a chynigion dylunio ar gyfer y safle newydd. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn darparu mwy o fanylion a chynlluniau gosodiad wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi:

- yr un nifer o randiroedd ag sydd ar hyn o bryd (gosodiad i'w gadarnhau);
- y nod yw i ddim graddiannau ar y safle newydd fynd y tu hwnt i'r graddiannau a gafwyd eisoes yn y leiniau presennol;
- ar ôl gwaith torri a llenwi, caiff y tir ei orffen ag uwchbridd a'i wrteithio;
- bydd wyneb tarmac ar y fynedfa newydd am ychydig o ffordd ac yna bydd yn newid i ddeunydd llenwi priodol;
- darperir 4 lle parcio;
- ffens diogelwch ddur galfanedig ar y terfyn at uchder o 1.8 metr o leiaf ynghyd â phrif giât i gyd-fynd; a
- llwybr troed cerrig o'r llwybr mynediad i bob llain at y sied.

Cynigir y canlynol ar gyfer pob llain:

- sied ar gyfer pob rhandir. Math a maint i'w cytuno;
- casgen ddŵr (oddi ar y sied) ar gyfer pob rhandir
- llofftydd colomennod newydd; a
- ffens goed gyffredin gyda giât gyfatebol (tua 1.2 metr o uchder) i bob rhandir.

Gyda golwg ar welliannau, cynigir y canlynol:

- darparu ffensys diogelwch gwell;
- darparu gwell ffensys i bob llain;
- gwella mynediad (ehangach) a llwybrau cylchrediad;
- darparu lleoedd parcio (4 llecyn); a
- chaiff addasrwydd y tir a'r pridd ei orffen yn unol â'r safonau perthnasol.

O ran efelychu'r safle presennol, canolbwyntiwyd ar elfen y tir a, lle bo'n rhesymol, mae'r awdurdod lleol yn anelu at ddarparu'r fanyleb sydd fel arfer yn gysylltiedig â darpariaeth rhandiroedd, fel yr amlinellwyd uchod. Er eglurder, ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol;

- dim darpariaeth o dai gwydr na chytiau ieir; ac
- ni ddarperir cyfleustodau i'r safle.

Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath yn derbyn diweddariad rheolaidd ar y rhaglen a'r amserlenni, fydd yn caniatáu i bob parti gynllunio'n unol â hynny.

## 4. Diweddglo

4.1 Daeth y Cyngor i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau addysg ac yn darparu adeiladau addas a digonol sy'n cwrdd ag anghenion staff a dysgwyr Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.

4.2 Byddai’r cynnig yn arwain at amgylcheddau addysgu a dysgu priodol fyddai’n hyrwyddo lles disgyblion ac agweddau at ddysgu. Byddai'r adeilad newydd a'r mannau allanol yn cael eu dylunio i gwrdd ag anghenion dysgwyr a byddent yn darparu mynediad i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

4.3 Byddai'r cynnig yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol i ateb anghenion y dysgwyr.

Mae copïau papur o’r adroddiad hwn ar gael os gofynnir yn y ffyrdd canlynol:

Ffôn: (01656) 643 643

E-bost: edsu@bridgend.gov.uk

Ar-lein: [www.bridgend.gov.uk/consultation](www.bridgend.gov.uk/consultation)

Post: Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae fformatau gwahanol ar gael ar gais.

*Mae penderfyniad y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 yn ddarostyngedig i’r gweithdrefnau galw i mewn a nodir yn Rhan 4 o Reolau’r Gweithdrefnau yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Yn ôl y gweithdrefnau hyn, gellir adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, ond nad ydynt wedi’u rhoi ar waith eto. Os bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael hysbysiad galw i mewn dilys, bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.*